

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cais am daliad buddion pensiwn

Ar ôl i chi llenwi'r ffurflen gais, cwblhewch y rhestr wirio isod i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol a llungopiau o'r tystysgrifau wedi'u darparu.

Rhestr Wirio (Ticiwch y blwch i nodi eich bod wedi cwblhau'r rhan berthnasol ✓)

Ffurflen opsiynau ymddeol	Rydych wedi ticio un opsiwn ac mae'r holl gwestiynau eraill wedi'u hateb. (Mae eich ffurflen opsiwn wedi'i chynnwys gyda'ch llythyr opsiynau budd-daliadau ymddeol) <u>Wedi rhoi llofnod a dyddiad</u>
Ffurflen manylion personol	Pob cwestiwn wedi'i ateb Rydych wedi cynnwys yr holl dystysgrifau perthnasol (derbynnir llungopiau) <u>Wedi rhoi llofnod a dyddiad</u>
Ffurflen manylion banc	Rydych wedi cadarnhau eich manylion banc ac maent wedi'u hysgrifennu'n glir <u>Wedi rhoi llofnod a dyddiad</u>
Ffurflen datgan buddion pensiwn blaenorol	Mae'r holl gwestiynau perthnasol wedi'u hateb drwy ddefnyddio'r nodiadau canllaw a ddarparwyd <u>Wedi rhoi llofnod a dyddiad</u>
Grant marwolaeth ffurflen mynegi dymuniad	Rydych wedi cadarnhau buddiolwyr eich grant marwolaeth. (Os oes mwy nag un buddiolwr arfaethedig, gofalwch bod y canrannau y bydd pob un yn eu derbyn gyda'i gilydd yn dod i 100% o'r cyfanswm) <u>Wedi rhoi llofnod a dyddiad</u>

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r holl ffurflenni yn y pecyn hwn ac yn eu dychwelyd atom. Sylwer y gallai ffurflenni sy'n cael eu cwblhau'n anghywir arwain at oedi mewn talu eich buddion pensiwn.



Wyddech chi fod gennym ni fideo i'ch helpu chi gyda llenwi eich ffurflenni ymddeoliad? Ewch i'r adran fideos ar ein gwefan i'w wyllo rŵan!

Dylid dychwelyd y ffurflenni wedi'u llenwi at Gronfa Bensiynau Clwyd drwy un o'r dulliau canlynol:



Uwchlwytho'r ffurflenni drwy 'Uwchlwytho Dogfen'
ar Hunanwasanaeth Aelodau



pensiynau@siryfflint.gov.uk



Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ffurflen manylion personol

Manylion yr Aelod:

Enw Llawn:			
Rhif YG:		Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad:			
		Cod post:	
Cyfeiriad E-bost:		Rhif Ffôn:	
Dewis laith: Dymunaf dderbyn POB gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis)			
Cymraeg		Saesneg	
Dewis o ran Cyfathrebu: Dymunaf dderbyn POB gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) (Dewiswch UN opsiwn yn unig)			
Electronig			Papur
*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig: mss.clwydpensionfund.org.uk			

Manylion eich Statws Priodasol: (Rhowch ✓ yn y blwch perthnasol)

	Wedi priodi neu mewn Partneriaeth Sifil. Rhowch gopïau o'ch tystysgrif geni, tystysgrif geni eich gŵr / gwraig / partner a'ch tystysgrif priodas/partneriaeth sifil.
	Gŵr gweddw / gwraig weddw neu bartner newn partneriaeth sifil sydd wedi goroesi. Rhowch gopïau o'ch tystysgrif geni a thystysgrif marwolaeth eich gŵr / gwraig / partner.
	Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu. Rhowch gopïau o'ch tystysgrif geni a'ch gorchymyn terfynol / gorchymyn diddymu (arferai gorchymyn terfynol gael ei alw'n archddyfarniad absoliwt)
	Cyd-fyw â phartner cyfraith gyffredin. Rhowch gopi o'ch tystysgrif geni (Os ydych yn byw gyda'ch partner ac wedi cronni aelodaeth o GPLIL ar ôl 1 Ebrill 2008, efallai y bydd y partner yr ydych yn byw gyda nhw yn gymwys am bensiwn partner sy'n goroesi os mai chi sy'n marw'n gyntaf. Gallwch ofyn i ni am ffurflen 'Manylion partner sy'n cyd-fyw â chi' er mwyn i chi allu rhoi manylion cyswllt eich partner i ni)
	Erioed wedi bod yn briod nac wedi bod mewn partneriaeth sifil. Rhowch gopi o'ch tystysgrif geni.

Datganiad:

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y wybodaeth uchod yn gywir.

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ffurflen manylion banc

Os ydych eisiau i ni dalu'ch pensiwn i gyfrif banc tramor, cysylltwch â ni i ofyn am ffurflen wahanol. Ni allwn wneud unrhyw daliadau tramor oni bai y llenwir y ffurflen hon a'i chyflwyno gyda'r lleill.

Manylion yr Aelod:

Enw Llawn:		Dyddiad Geni:	
Rhif YG:			

Manylion Talu:

Enw Deiliad y Cyfrif:	
Enw'r Banc / Cymdeithas Adeiladu:	
Cod Didoli: (rhif chwech digid yng nghornel dde eich llyfr siec neu gerdyn banc)	
Rhif y Cyfrif:	
Rhif Cofrestru eich Cyfrif: (dim ond ar gyfer cyfrifon Cymdeithas Adeiladu)	

Sicrhewch fod manylion y banc neu'r gymdeithas adeiladu yr ydych wedi'u cynnwys ar y ffurflen wedi'u ysgrifennu'n glir fel y gellir talu'r cyfrif cywir.

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ffurflen datgan buddion pensiwn blaenorol

Pwysig

- Darllenwch y nodiadau **datgan buddion pensiwn blaenorol** yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen hon
- Ni fyddwn yn gallu talu'r buddion pensiwn hyn hyd nes y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon a'i hanfon yn ôl atom
- Bydd methu a llenwi'r ffurflen hon yn arwain at dalu eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn hwyr

Manylion yr Aelod:

Enw Llawn:		Dyddiad Geni:	
Rhif YG:			

Adran 1: Cymryd cyfandaliad (rhowch ✓ yn y blychau priodol)

C1. Ydych chi'n cymryd Cyfandaliad Di-dreth pan fyddwch chi'n Ymddeol?	
Ydw	Na
C2. Oes gennych chi dystysgrif swm trosiannol di-dreth (TTFAC)?	
Oes Atodwch gopi a rhowch wybod i ni am unrhyw gyfandaliadau yr ydych wedi'u derbyn ers iddi gael ei chyhoeddi (yn adran 4)	Na
C3. A ydych chi wedi cymryd taliad o unrhyw fuddion pensiwn o'r blaen?	
Do	Na

Adran 2: Cyfandaliadau a throsglwyddiadau eraill (Rhowch ✓ yn y blychau perthnasol)

A ydych chi wedi cael cyfandaliad salwch difrifol erioed?		Do	Na
Os ateboch 'do', rhowch y dyddiad y cafodd ei dalu.		Swm a dalwyd:	
Ydych chi wedi cael cyfandaliad annibynnol erioed?		Do	Na
Os ateboch 'do', rhowch y dyddiad y cafodd ei dalu.		Swm a dalwyd:	
Wnaethoch chi dalu unrhyw fuddion pensiwn y DU i gynllun pensiwn tramor cyn 6 Ebrill 2024?		Do	Na
Os ateboch 'do', rhowch y dyddiad y cafodd ei dalu.		Swm a dalwyd:	

Adran 3: Cyfandaliad di-dreth yn cael ei dalu ar yr un diwrnod (Rhowch ✓ yn y blwch perthnasol)

Ydych chi'n cymryd cyfandaliad di-dreth arall ar yr un diwrnod ag y bydd eich cyfandaliad di-dreth CPLIL yn daladwy?	Ydw	Na
--	-----	----

Adran 4: Buddion pensiwn blaenorol

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym am y buddion pensiwn yr ydych wedi'u cymryd yn flaenorol. **Mae'r wybodaeth sydd ei hangen arnom yn dibynnu ar pryd y talwyd eich buddion pensiwn i chi gyntaf.** Llenwch dim ond yr adrannau sy'n berthnasol i chi.

Pensiynau a dalwyd yn gyntaf cyn 6 Ebrill 2006: Os cymeroch daliad buddion pensiwn cyn 6 Ebrill 2006 mae arnom angen gwybod faint o bensiwn blynyddol sy'n cael ei dalu i chi ar hyn o bryd.

Darparwr pensiynau	Dyddiad y cafodd ei dalu gyntaf	Swm y pensiwn blynyddol ar hyn o bryd

Pensiynau a chyfandaliadau a dalwyd rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2024: Ar gyfer y buddion pensiwn hyn rydym angen gwybod am ganran y lwfans oes (LTA) a ddefnyddiwyd. Bydd y darparwr pensiwn sy'n talu'r buddion i chi wedi dweud hyn wrthyfch. Os nad yw'r wybodaeth hon gennych chi, rhowch swm y pensiwn blynyddol ar y dyddiad y cafodd ei dalu i chi'n gyntaf ac unrhyw gyfandaliad di-dreth a dalwyd. Os cymeroch cyfandaliad cronfeydd pensiwn heb eu crisialu rhowch wybod i ni am hyn yn y golofn olaf. Mae hwn yn fath o swm cyfandaliad a delir o gynllun cyfraniadau diffiniedig. Cynhwyswch y swm UFPLS cyfan, sef y symiau trethadwy a di-dreth.

Darparwr pensiynau	Dyddiad y cafodd ei dalu gyntaf	Canran y Lwfans Oes	Pensiwn Blynyddol	Cyfandaliad di-dreth	Cyfanswm UFPLS

Cyfandaliadau wedi'u talu o Ebrill 2024: Ar gyfer buddion pensiwn a dalwyd o 6 Ebrill 2024 rydym angen gwybodaeth am unrhyw gyfandaliadau di-dreth a dalwyd i chi yn unig. Yn yr adran hon dywedwch wrthym am

- gyfandaliadau cychwyn pensiwn (PCLS), sef cyfandaliadau di-dreth yr ydych yn eu cymryd pan fyddwch yn dechrau cymryd pensiwn
- cyfandaliad cronfeydd pensiwn heb eu crisialu (UFPLS,) sef math o gyfandaliad a delir o gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn yr adran hon rhowch wybod i ni am ran di-dreth y cyfandaliad yn unig

Darparwyr pensiynau	Dyddiad talu	Faint o gyfandaliad di-dreth a dalwyd

Adran 5: Amddiffyniadau ac ychwanegiadau Lwfans Oes (LTA)

Os oes gennych unrhyw amddiffyniadau neu ychwanegiadau LTA, rhowch wybod i ni isod.

Math o amddiffyniad / ychwanegiad LTA	Cyfeirnod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

Adran 6: Ailgylchu cyfandaliadau (Rhowch ✓ yn y blwch perthnasol)

Rwy'n datgan:

Nid wyf yn bwriadu ailgylchu'r cyfandaliad di-dreth o'r pensiwn hwn.

☐

Rwyf yn bwriadu ailgylchu'r cyfandaliad di-dreth o'r pensiwn hwn gyda'r bwriad o gynyddu fy nghyfraniadau i un neu fwy o gynlluniau pensiwn cofrestredig yn sylweddol. Rwy'n deall y gallai gwneud hyn fy ngwneud i'n agored i daliadau treth a gordaliadau.

☐

Os ydych yn datgan eich bod di-dreth, rhowch fanylion isod:

--

Adran 7: Datganiad terfynol

Rwyf yn datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod y wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn. Rwy'n deall y byddaf yn gyfan gwbl ac yn bersonol atebol am unrhyw dreth a chosbau a bennir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi os canfyddir nad yw'r wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn gywir.

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Llenwi'r ffurflen datgan buddion pensiwn blaenorol

Bydd y nodiadau hyn yn eich helpu chi i llenwi'r ffurflen datgan buddion pensiwn blaenorol.

Mae'r llywodraeth yn cyfyngu ar y swm o arian di-dreth y gallwch chi gymryd o gynllun pensiwn cofrestredig. Os ydych chi'n dymuno cymryd cyfandaliad pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn, mae arnom angen gwybod am unrhyw fuddion pensiwn rydych wedi'u cymryd o'r blaen i sicrhau nad ydych chi'n mynd dros y terfyn cyfandaliadau. Er na effeithir ar y rhan fwyaf o aelodau, mae'n rhaid i ni gynnal y gwiriadau i bawb.

Does dim rhaid i chi roi gwybod i ni am eich Pensiwn y Wladwriaeth nag unrhyw fuddion partner sy'n dal yn fyw rydych chi'n eu cael. Mae'r rhain yn bensiynau sydd wedi'u cronni gan eich diweddar ŵr, gwraig neu bartner ac wedi'u talu i chi ar ôl iddynt farw.

Lwfansau Cyfandaliadau

Cyflwynwyd dau lwfans cyfandaliadau ar 6 Ebrill 2024. Os yw cyfanswm yr holl gyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd o bensiynau'r DU yn fwy nag un o'r lwfansau hyn, bydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol. Codir treth ar unrhyw swm dros y lwfans ar eich cyfradd ymylol.

Ni fydd hyn yn effeithio ar y rhan fwyaf o aelodau oherwydd bod y cyfandaliad mwyaf a ellir ei gymryd yn llawer is na'r lwfansau. Os ydych chi wedi cronni pensiwn mawr dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu gynllun gwahanol, mae'n bosibl y bydd y lwfansau newydd yn effeithio arnoch chi.

Mae mwy o wybodaeth am lwfansau cyfandaliadau ar gael ar wefan gyffredinol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg): <https://www.lgpsmember.org/your-pension/the-essentials/tax>

Adran 1: Cymryd cyfandaliad

Tystysgrif swm di-dreth trosiannol (TTFAC)

Os cymeroch chi daliad pensiwn neu gyfandaliad cyn 6 Ebrill 2024, bydd y taliadau hyn yn defnyddio rhan o'ch lwfansau cyfandaliadau. Dan reolau Cyllid a Thollau EF, mae'n rhaid i ni dybio eich bod chi wedi cymryd y cyfandaliad mwyaf a ganiateir.

Os ydych chi wedi cymryd llai na'r cyfandaliad mwyaf a ganiateir, gallwch gael tystysgrif swm di-dreth trosiannol (TTFAC). Mae'r dystysgrif yn nodi cyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cael. Byddwn wedyn yn defnyddio'r symiau hyn i gyfrifo faint o'r lwfansau cyfandaliadau rydych chi wedi'u defnyddio, yn hytrach na thybio eich bod chi wedi cymryd y swm mwyaf a ganiateir. I'r rhan fwyaf o'r aelodau, ni fydd TTFAC yn effeithio ar y cyfandaliad a ellir ei gymryd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar y cyfan, bydd y lwfansau ond yn effeithio ar aelodau sydd wedi cronni pensiynau mawr iawn.

Os oes gennych chi TTFAC, does dim rhaid i chi roi gwybod am bensiynau na chyfandaliadau a gymerwyd cyn 6 Ebrill 2024. Mae'n rhaid i chi anfon y TTFAC gyda'ch ffurflen datgan buddion.

Os ydych chi'n ystyried gwneud cais am dystysgrif swm di-dreth trosiannol, efallai yr hoffech chi gael cyngor ariannol arbenigol annibynnol. Gall rhai aelodau fod yn waeth allan os ydyn nhw'n gwneud cais am un. Ni all Cronfa Bensiynau Clwyd gynnis unrhyw gyngor ariannol. Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg):

<https://unbiased.co.uk>

Helpwr Ariannol:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser>

Bydd yn rhaid i chi wneud cais am dystysgrif cyn i chi gymryd cyfandaliad ar ôl 6 Ebrill 2024. Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech chi fwy o wybodaeth am broses ymgeisio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Adran 2: Cyfandaliadau eraill a throsglwyddiadau

Does dim rhaid i chi lenwi'r adran hon os oes gennych chi TTFAC.

Cyfandaliad salwch difrifol

Cyfandaliad a delir os yw'ch disgwyliad oes yn llai nag un flwyddyn.

Cyfandaliad arunig

Cyfandaliad arbennig a delir i unigolion sydd, ar 5 Ebrill 2006, â'r hawl i gael eu holl fuddion cynllun pensiwn fel cyfandaliad di-dreth. Nid yw'r rhain yn gyffredin ac nid yw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn eu talu.

Adran 3: Cyfandaliad di-dreth a delir ar yr un diwrnod

Os ydych chi'n cymryd cyfandaliad di-dreth arall ar yr un diwrnod, bydd yn rhaid i chi benderfynu ym mha drefn yr hoffech chi dderbyn eich buddion. Os yw hyn yn berthnasol, byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth.

Adran 4: Buddion pensiwn blaenorol

Cyfandaliadau cychwyn pensiwn (PCLS)

Mae'r rhain yn gyfandaliadau di-dreth rydych chi'n eu cymryd pan fyddwch chi'n dechrau cymryd pensiwn.

Cyfandaliadau pensiwn cronfeydd anghrisialog (UFPLS)

Mae hwn yn gyfandaliad a delir o gynllun cyfrannu diffiniedig. Rhowch wybod i ni am elfen ddi-dreth y cyfandaliad yn unig pan fyddwch chi'n llenwi'r ffurflen datgan buddion blaenorol.

% Lwfans Oes

Cyn 6 Ebrill 2024, roedd y lwfans oes yn cyfyngu cyfanswm buddion pensiwn y gallai unigolyn ei gael cyn iddynt dalu treth ychwanegol. Mae'r lwfans oes wedi'i ddisodli bellach gan y lwfansau cyfandaliadau newydd.

Os ydych chi wedi cymryd taliadau buddion pensiwn cyn 6 Ebrill 2024, byddwch wedi defnyddio rhan o'ch lwfans oes. Oni bai bod gennych chi TTFAC, fe ddylech chi roi gwybod i ni beth yw canran y lwfans oes rydych chi wedi'i ddefnyddio ar gyfer unrhyw bensiwn neu gyfandaliadau a gymerwyd rhwng 6 Ebrill 2006 a 5 Ebrill 2024. Bydd y cynllun pensiwn sy'n talu/wedi talu'r buddion hyn wedi darparu'r wybodaeth yma i chi. Os nad yw'r wybodaeth hon gennych chi, rhowch swm y pensiwn blyneddol ar y dyddiad y cafodd ei dalu'n gyntaf ac unrhyw gyfandaliad di-dreth a dalwyd.

Os cymeroch chi UFPLS cyn 6 Ebrill 2024, rhowch wybod i ni pa ganran o'r lwfans oes a ddefnyddiwyd neu gyfanswm y UFPLS, y swm trethadwy a'r swm di-dreth.

Os cymeroch chi UFPLS ar neu ar ôl 6 Ebrill 2024, does ond angen nodi'r swm di-dreth. Nodwch y swm hwn yn y tabl 'Cyfandaliadau a dalwyd o 6 Ebrill 2024'.

Adran 5: Diogelwch ac ychwanegiadau lwfans oes

Diogelu lwfans oes

Mae'r Llywodraeth wedi gostwng y lwfans oes deirgwaith ers iddo ddod yn weithredol yn 2006. Bob tro cafodd ei ostwng, gallai'r unigolion hynny a oedd eisoes wedi cronni pensiynau mawr wneud cais am ddiogelwch rhag y gostyngiad. Os oes gennych chi ddiogelwch lwfans oes, gall eich lwfansau cyfandaliadau fod yn uwch na'r cyfyngiadau safonol.

Nid yw'n bosibl ymgeisio am amddiffyniad lwfans oes bellach oni bai bod gennych fuddion mewn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a allai fod wedi cael eu heffeithio gan y datrysiad McCloud. Os yw hyn yn berthnasol, gallwch **wneud cais i Refeniw a Thollau ei Fawrhydi ar gyfer Amddiffyniad Penodol neu Unigol 2016** tan 5 Ebrill 2027.

Ymwelwch â <https://www.lgpsmember.org/mccloud-remedy> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) am ragor o wybodaeth am y datrysiad McCloud.

Ychwanegu at lwfans oes

Efallai eich bod chi wedi gwneud cais am hyn os ydych chi wedi trosglwyddo pensiwn i'r DU o dramor, neu os cawsoch chi gredyd pensiwn fel rhan o ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil.

Adran 6: Ailgylchu cyfandaliadau

Os ydych chi'n cymryd cyfandaliad di-dreth gyda'r bwriad o gynyddu cyfraniadau'n sylweddol i gynllun pensiwn arall, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni gan y gallai taliadau treth fod yn berthnasol. Gelwir hyn yn ailgylchu pensiwn. Gweler **gwefan Cyllid a Thollau ei Fawrhydi** am ragor o wybodaeth (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Ffurflen mynegiad o ddymuniad grant marwolaeth

Manylion yr Aelod:

Enw Llawn:			
Rhif YG:		Dyddiad Geni:	
Cyfeiriad:			
	Cod post:		

Manylion eich buddiolwr 1^{af}:

Enw:		Canran y Buddiolwr:	%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
	Cod post:		

Manylion eich 2^{il} fuddiolwr:

Enw:		Canran y Buddiolwr:	%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
	Cod post:		

Manylion eich 3^{ydd} fuddiolwr:

Enw:		Canran y Buddiolwr:	%
Dyddiad Geni:		Perthynas:	
Cyfeiriad:			
	Cod post:		

Datganiad: Rydw i wedi darllen y nodiadau canllaw. Gofynnaf i Gyngor Sir y Fflint (Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd) gan ymarfer ei ddisgresiwn absoliwt, ystyried talu unrhyw gyfandaliad budd marwolaeth sy'n ddyledus o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r unigolyn/unigolion a/neu sefydliad(au) uchod ac (os oes mwy nag un) ei rannu yn unol â fy Mynegiad Dymuniad.

Llofnod:		Dyddiad:	
----------	--	----------	--

Nodiadau Mynegi Dymuniad Grant Marwolaeth

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.

Mae swm y grant marwolaeth sy'n daladwy yn dibynnu ar ba fath o aelod ydych chi yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'n rhaid i chi hefyd farw cyn troi'n 75 oed er mwyn i grant marwolaeth fod yn daladwy o bosibl:

Os ydych chi'n marw pan fyddwch chi'n dal yn gweithio a'ch bod chi'n dal yn talu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	Bydd y grant marwolaeth dair gwaith eich tâl pensiynadwy tybiedig. (Os ydych yn gweithio'n rhan-amser neu yn ystod y tymor yn unig, bydd y grant marwolaeth yn cael ei gyfrifo ar sail eich gwir gyflog pensiynadwy yn hytrach na'ch cyflog cyfwerth â llawn amser).	
	Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn ar neu cyn 31 Mawrth 2008	Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2008
Os ydych yn gadael cyn ymddeol gyda buddion gohiriedig ac yn marw cyn cael y rheiny	Bydd y grant marwolaeth tair gwaith gwerth eich pensiwn blynyddol gohiriedig yn ogystal â chynnydd mewn costau byw.	Bydd y grant marwolaeth bum gwaith gwerth eich pensiwn blynyddol gohiriedig yn ogystal â chynnydd mewn costau byw.
Os ydych yn marw tra byddwch yn cael eich pensiwn	Bydd y grant marwolaeth bum gwaith swm eich pensiwn blynyddol, ar ôl tynnu unrhyw daliadau yr ydych chi wedi'u cael eisoes. (Os gwnaethoch chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn 1 Ebrill 1998, mae'r rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol hyn yn fwy cymhleth. Gallwn roi amcangyfrif o'r grant marwolaeth i chi ar gais).	Bydd y grant marwolaeth 10 gwaith swm eich pensiwn blynyddol cyn i chiildio unrhyw swm o'ch pensiwn ar gyfer cyfandaliad, gan dynnu'r pensiwn a'r cyfandaliad yr oeddech eisoes wedi'u cael. Caiff hyn ei gyfrifo ychydig yn wahanol ar gyfer unrhyw ran o'r pensiwn a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014.

- Mae'n rhaid i unrhyw grant marwolaeth ystyried a oes gennych chi unrhyw bensiynau eraill mewn cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill. Byddwn yn gwirio gyda chronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill yng Nghymru a Lloegr i wirio a oes gennych unrhyw aelodaeth â nhw. Yna y grant sy'n daladwy fydd yr uchaf o'r:
 - Grant marwolaeth o'ch cyfrifon gohiriedig neu bensiynwr; neu'r
 - Grant marwolaeth mewn gwasanaeth.
- Gall eich buddiolwyr grant marwolaeth fod yn un neu fwy o aelodau'r teulu, ffrindiau neu elusennau. Os oes mwy nag un buddiolwr arfaethedig, gofawch bod canrannau pob buddiolwr yn dod i gyfanswm o 100%.
- Os oes angen mwy o le ar gyfer mwy na tri buddiolwr, cadarnhewch eu manylion ar ddalen ar wahân **(arwyddwch a nodwch y dyddiad ar y ddalen ar wahân hefyd).**
- Gallwch ddiweddarau eich mynegiant o ddymuniad ar unrhyw adeg drwy gwblhau ffurflen arall.
- Ni allwch nodi pwy fyddai nesaf os bydd eich buddiolwr enwebedig gwreiddiol yn marw o'ch blaen. Yn yr achos hwn, dylech lenwi ffurflen mynegi dymuniad newydd.
- Os nad ydych chi'n cwblhau ffurflen mynegi dymuniad, bydd y taliad yn cael ei wneud i'ch cynrychiolydd personol, er enghraifft, eich Ystâd.
- Mantais mynegi dymuniad yw y caiff y grant marwolaeth ei dalu'n gyflym, ac ni fydd angen aros i'ch Ystâd gael ei setlo. Ni fydd y grant marwolaeth yn ffurfio rhan o'ch Ystâd, sy'n golygu na fydd angen talu treth etifeddiant arno.
- Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn datgan, er mwyn osgoi costau treth, fod angen prosesu taliad y grant marwolaeth o fewn dwy flynedd i hysbysu'r Gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol am y farwolaeth. Dylai eich perthynas agosaf ein hysbysu am eich marwolaeth a chwblhau'r holl ffurflenni cyn gynted â phosibl, fel bod y grant marwolaeth yn cael ei dalu o fewn yr amserlen hon o ddwy flynedd.
- Dylech gadw copi o'ch ffurflen mynegi dymuniad wedi'i chwblhau, ynghyd â'r nodiadau hyn, a'u ffeilio mewn man diogel ar gyfer eich cofnodion.
- Mae'r ffurflen hon ar gyfer y taliad grant marwolaeth yn unig. **Ni allwch enwebu ar gyfer y pensiwn goroeswr.**
- Sylwer, yn ôl y gyfraith, mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd lais yn y penderfyniad ynghylch pwy ddylai dderbyn y grant marwolaeth. Os llenwch chi ffurflen mynegi dymuniad yn enwi eich buddiolwyr, bydd hynny'n ein helpu i dalu'r grant marwolaeth i'r bobl iawn.